

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych



Cefndir...

Ffurfiwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ym mis Ebrill 2016, ar ôl i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gael ei chyflwyno. Mae'r BGC yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Mae'n fwrdd statudol ac yn cynnwys yr aelodau canlynol -

- ❖ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- ❖ Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
- ❖ Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- ❖ Cyfoeth Naturiol Cymru
- ❖ Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- ❖ Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- ❖ Cyngor Sir Ddinbych
- ❖ Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru
- ❖ Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- ❖ Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- ❖ Heddlu Gogledd Cymru
- ❖ Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ❖ Llywodraeth Cymru

Mae BGC Conwy a Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar wella ei ddulliau cyfathrebu ac mae'r diweddariad hwn wedi'i gynhyrchu i'ch hysbysu am yr hyn y mae'r bwrdd wedi bod yn ei wneud hyd yma a beth sydd ganddo ar y gweill dros y misoedd nesaf.

Camau Nesaf...

- Mae'r Bwrdd yn cynnal gweithdy ar ddechrau'r flwyddyn i ddechrau trafod goblygiadau'r Asesiad Lles Lleol a beth fydd yn ei olygu i ranbarth Conwy a Sir Ddinbych.
- Bydd yr Asesiad Lles Lleol yn destun ymgynghoriad yn y Flwyddyn Newydd.
- Hefyd fel rhan o'r flaenoriaeth interim Mil Diwrnod Cyntaf, mae'r BGC yn trefnu digwyddiad ar **6 Chwefror 2017** i fapio'r system o'r cyfnod beichiog i 2 oed ar draws Conwy a Sir Ddinbych.

Gwaith Hyd Yma...

Asesiad Lles Lleol

O dan y Ddeddf, rhaid i'r BGC baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Conwy a Sir Ddinbych a fydd yn sail i ddatblygiad Cynllun Lles ar gyfer y bwrdd.

Mae drafft cyntaf yr asesiad wedi'i gynhyrchu ac mae'r BGC yn dechrau adolygu'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Bydd yr Asesiad Lles Lleol yn destun ymgynghoriad yn y Flwyddyn Newydd.

Cyfathrebu

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi cyfathrebu fel blaenoriaeth dros dro, gan gydnabod pwysigrwydd cyfathrebu â phreswylwyr a mabwysiadu dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan y cyhoedd (e.e. defnyddio'r rhyngwrwd ar eu ffonau, cyfryngau cymdeithasol, defnyddio apiau ac ati). Fel man cychwyn, mae BGCau wedi cytuno ar y cyd i hoffi / dilyn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei gilydd er mwyn ymestyn gafael asiantaethau cyhoeddus a rhannu ac ail-drydar negeseuon.

Mae'r BGC hefyd am i sefydliadau cyhoeddus fod yn weithlu mwy hyblyg ac ymestyn hyn i leoliad cydweithredol. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau fod staff ar draws pob sefydliad BGC yn gallu cael mynediad at eu rhwydwaith mewn adeiladau partner a'u bod yn gallu cael mynediad at ddesgiau poeth yn achlysurol.

Yn olaf o dan y flaenoriaeth hon mae'r BGC am wella ac annog rhannu gwybodaeth yn eu sefydliadau unigol a throsglwyddo'r neges i'w gweithlu y dylid edrych ar lywodraethu gwybodaeth fel rhywbeth sy'n eu galluogi ac nid yn eu rhwystro. Mae'r BGC am wybod a yw eu rheolwyr yn cael trafferth â sefydliadau eraill nad ydynt yn rhannu gwybodaeth a byddant yn ceisio datrys hyn yn y BGC.

Mil Diwrnod Cyntaf Bywyd

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi Mil Diwrnod Cyntaf Bywyd fel blaenoriaeth dros dro, gan gydnabod bod canolbwyntio ar y cyfnod hwn yn cyd-fynd yn agos â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, o dan y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Mil Diwrnod Cyntaf bywyd yn ceisio atal profiadau plentyndod niweidiol, drwy sicrhau fod teuluoedd yn gallu ymdopi â straen bywyd bob dydd, yn enwedig yn ystod beichiogrwydd a dyddiau cynnar bod yn rhiant.

Cytunodd y bwrdd mai'r cam cyntaf ar gyfer y flaenoriaeth interim hon yw cynnal gweithdy mapio i gasglu gwybodaeth am y system bresennol ar draws Conwy a Sir Ddinbych.